CYHOEDDIAD

# Canllawiau i ddarparwyr eiriolaeth ar gwblhau'r templed adrodd perfformiad cenedlaethol

Canllawiau i gyd-fynd â'r templed adrodd cenedlaethol.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 15 Gorffennaf 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Gorffennaf 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-i-ddarparwyr-eiriolaeth-ar-gwblhaur-templed-adrodd-perfformiad-cenedlaethol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Cefndir

## Diben

## Sut i'w Defnyddio



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-i-ddarparwyr-eiriolaeth-ar-gwblhaur-templed-adrodd-perfformiad-cenedlaethol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cefndir

Y Templed Adrodd Cenedlaethol yw un o brif elfennau'r Dull Cenedlaethol o Eiriolaeth Statudol. Fe'i cyflwynwyd er mwyn sicrhau bod comisiynwyr gwasanaethau eirioli ledled Cymru yn derbyn data cyson mewn perthynas â darparu a defnyddio Gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn eu hardal.

Mae'r Templed Adrodd Cenedlaethol wedi'i gymeradwyo gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar y Dull Cenedlaethol o Eiriolaeth Statudol i Blant a Phobl Ifanc. Mae cymeradwyaeth yn dangos y daethpwyd i gytundeb o ystyried lefelau data meintiol ac ansoddol y mae'r adroddiad yn eu casglu fel rhai digonol i ganiatáu i gomisiynwyr gwasanaethau eirioli ddeall y defnydd o wasanaethau yn eu hardal. Bwriedir mai dyma'r unig adroddiad y mae comisiynwyr gwasanaethau eirioli yn ei gael bob chwarter. Bydd adroddiad blynyddol sy'n defnyddio'r un templed hefyd yn cael ei gwblhau gan y darparwr gwasanaeth.

Datblygwyd y canllawiau hyn, sydd wedi'u hanelu at ddarparwyr gwasanaethau, i gyd-fynd â'r Templed Adrodd Cenedlaethol.

# Diben

Diben y canllawiau hyn, a ysgrifennwyd i gyd-fynd â'r Templed Adrodd Cenedlaethol yw:

- sicrhau dull cydgysylltiedig rhwng darparwyr eiriolaeth mewn perthynas â chwblhau'r Templed Adrodd Cenedlaethol
- sicrhau bod comisiynwyr awdurdodau lleol yn gwybod beth i'w ddisgwyl o'r templed adrodd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-i-ddarparwyr-eiriolaeth-ar-gwblhaur-templed-adrodd-perfformiad-cenedlaethol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Sut i'w Defnyddio

Mae pob un o'r is-benawdau isod yn cyfateb i adran ar y Templed Adrodd Cenedlaethol.

Cynigir canllawiau ynghylch sut i lenwi pob adran isod.

## Prif Adroddiad

Defnyddio'r lle hwn i roi manylion am:

- Trosolwg o atgyfeiriadau ac ati yn ystod y chwarter
- Trosolwg o themâu a thueddiadau
- Trosolwg o gwynion (materion pobl ifanc)
- Nifer yr atgyfeiriadau sydd y tu Allan i'r Sir
- Nifer y plant a'r ifanc sy'n Ceisio Lloches ar eu pen eu hunain (UASC) yma
- Cynnwys manylion am faterion rhai sy'n ymadael â gofal, yn y Prif Adroddiad
- Cynnwys manylion am unrhyw sefydliadau o'r Trydydd Sector sy'n atgyfeirio yn y Prif Adroddiad
- Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd neu a gefnogir gan eiriolwr (dewisol)
- Rhesymau pam na wnaethoch fodloni targedau 48 awr a 5 diwrnod
- Argymhellion
- Adborth gan Blant a Phobl Ifanc (PPI) ynglŷn â chanlyniadau personol. Y canlyniadau y cytunwyd arnynt i adrodd arnynt yw:
    - Mae PPI yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn fwy mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt
    - Mae PPI yn teimlo'n fwy hyderus o ganlyniad i eiriolaeth
    - Mae PPI yn teimlo bod eiriolaeth yn gwneud gwahaniaeth i'w sefyllfa
    - Mae PPI yn teimlo'n fwy gwybodus am eu hawliau.

Cynnwys astudiaeth achos yn yr adran hon.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-i-ddarparwyr-eiriolaeth-ar-gwblhaur-templed-adrodd-perfformiad-cenedlaethol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# 1a. Eiriolaeth sy'n Seiliedig ar Faterion

### Achosion Eiriolaeth Pobl Ifanc

Mae hyn yn adlewyrchu nifer y PPI a atgyfeirir at yn ystod y chwarter. Nid yw'n cynnwys atgyfeiriadau Cynnig Gweithredol.

Nifer y Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n defnyddio am y tro cyntaf = defnyddwyr newydd sbon ni welwyd erioed o'r blaen. Bydd y ffigur hwn yn wahanol i nifer y PPI a atgyfeirir yn y chwarter.

# 1b. Ymyriadau Achos Eiriolaeth (YAE)

Mae hyn yn adlewyrchu nifer y materion a gyfeiriwyd yn y chwarter.

# 2a. Cynnig Gweithredol

Mae hyn yn adlewyrchu ystadegau Cynnig Gweithredol yn unig. Rhaid cael manylion o nifer y Plant a Phobl Ifanc sy'n gymwys i gael y Cynnig Gweithredol gan bob Awdurdol Lleol (ALl) unigol.

# 2b. Meini Prawf Cymhwysedd YAE

Cyfanswm yr holl fathau o gymhwysedd (Plant sy'n Derbyn Gofal, y Rhai sy'n Gadael Gofal ac ati).

Dylai'r cyfanswm cyfun gyfateb i Nifer yr Atgyfeiriadau a Dderbyniwyd (PPI) nid materion) yn Siart 1.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-i-ddarparwyr-eiriolaeth-ar-gwblhaur-templed-adrodd-perfformiad-cenedlaethol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 4. Nodweddion Gwarchodedig

Nodwch unrhyw PPI a atgyfeirir sydd â Nodwedd Warchodedig yma, os yw'n hysbys. Os oes gan PPI fwy nag un Nodwedd Warchodedig, casglwch bob un ohonynt yn y graff a nodwch hyn yn y Prif Adroddiad.

## 5. Ffynhonnell yr Atgyfeiriad

Cyfrifwch y ffynhonnell atgyfeirio fesul PPI nid fesul mater.

Cyfrwch ar gyfer YAE yn unig, nid Cynnig Gweithredol.

Cynhwyswch fanylion unrhyw sefydliadau Trydydd Sector sy'n atgyfeirio yn y Prif Adroddiad. Daw atgyfeiriadau eiriolwyr (NYAS) o dan Hunangyfeirio.

## 6. Materion a Gyflwynwyd

Dylech gynnwys manylion am faterion sy’n ymwneud â Gadael Gofal yn y Prif Adroddiad.

Os oes gennych fath o fater nad yw'n cyd-fynd ag un o'r categorïau penodedig, nodwch hyn yn y Prif Adroddiad.

## 7. Perfformiad y Gwasanaeth

Nodwch, fel canrannau, nifer y bobl ifanc y cysylltwyd â hwy o fewn y 48 awr penodedig a nifer y bobl ifanc a welsoch wyneb yn wyneb o fewn y targed o bum diwrnod gwaith.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-i-ddarparwyr-eiriolaeth-ar-gwblhaur-templed-adrodd-perfformiad-cenedlaethol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dylech gynnwys rhesymau pam y gwnaethoch fethu unrhyw dargedau ynglŷn â chanlyniad 1.

## 8. Lefel Yr Ymyrraeth Eiriolaeth

Cofnodwch gyfanswm nifer yr oriau o waith a gwblhawyd ar gyfer pob mater, pan fydd y mater yn cau. Dylech gynnwys yr holl amser teithio, gwaith uniongyrchol gyda'r plant a phobl ifanc, gwaith gweinyddol sydd yn gysylltiedig, ymchwil a thrafodaethau achos (gyda'r rheolwr) wrth gyfrifo cyfanswm yr oriau gwaith.

Categoreiddio i un o'r tri ystod isod:

- Isel = 0-11 awr
- Canolig = 12-18 awr
- Uchel = 18+ awr.

## 9. Canlyniadau

Mae'r enghreifftiau isod at ddibenion darlunio. Nid oes rhaid i chi gynnwys pob enghraifft ym mhob adroddiad, yn hytrach adlewyrchu unrhyw weithgarwch a brofir yn y chwarter adrodd er mwyn sicrhau bod adroddiadau'n amrywio o chwarter i chwarter.

### Canlyniad 1

Mae gwasanaethau eirioli o ansawdd da ar gael yn rhwydd ac mae'n hawdd i blant a phobl ifanc gael gafael arnyn nhw.

Awgrymiadau ar gyfer eu cynnwys:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-i-ddarparwyr-eiriolaeth-ar-gwblhaur-templed-adrodd-perfformiad-cenedlaethol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Heriau - e.e. Eglurwch pam nad ydych yn bodloni’r targedau 48 awr a 5 diwrnod
- Gwaith cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth sydd wedi'i gwblhau
- Lleoliadau hygyrch - adrodd ar leoliadau amgen ar gyfer cyfarfod â phobl Ifanc
- Soniwch am fynediad at wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc a leolir y tu allan i'r sir ac unrhyw heriau sydd yn gysylltiedig
- Hyfforddiant staff a gwblhawyd o ran diwallu anghenion y plant a phobl ifanc a gafodd eu hatgyfeirio.
- Unrhyw broblemau o ran defnyddio timau ALI i hyrwyddo gwasanaeth ac ati
- A gafodd unrhyw hyfforddiant proffesiynol ei ddarparu.

## Canlyniad 2

Mae preifatrwydd plant a phobl ifanc a'u hawl i gyfrinachedd yn cael eu parchu ac mae eu lles yn cael ei ddiogelu a’i amddiffyn.

Awgrymiadau ar gyfer eu cynnwys:

- Nifer yr atgyfeiriadau diogelu i'r ALI
- Enghreifftiau o heriau sy’n codi wrth esbonio cyfrinachedd a diogelu
- Unrhyw broblemau gyda gwasanaethau cymdeithasol o ran datgelu gwybodaeth yn ddiangen
- Unrhyw gwynion i'r gwasanaeth eiriolaeth ac neu/am y gwasanaeth eiriolaeth.

## Canlyniad 3

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am eu hamrywiaeth, yn cael eu trin â pharch ac mae pob math ar wahaniaethu yn eu herbyn yn cael ei herio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-i-ddarparwyr-eiriolaeth-ar-gwblhaur-templed-adrodd-perfformiad-cenedlaethol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Awgrymiadau ar gyfer eu cynnwys:

- Defnydd o gyfieithu/dehonglwyr
- Nifer y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn Gymraeg ac unrhyw ieithoedd eraill
- Dylech gynnwys gwybodaeth am Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a gipiwyd yma
- Atgyfeiriadau Eiriolaeth heb gyfarwyddyd yma
- Atgyfeiriadau UASC yma
- Unrhyw atgyfeiriadau eraill lle mae materion nodweddion gwarchodedig wedi bod yn berthnasol.

## Canlyniad 4

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso i arwain mewn perthynas â gwasanaethau eirioli, ac mae eu hawliau, eu dymuniadau a’u teimladau'n cael eu cefnogi.

Awgrymiadau i'w cynnwys:

- Adborth am y gwasanaeth - a oedd plant a phobl ifanc yn hapus gyda'r gwasanaeth?
- Dylech gynnwys dyfyniadau adborth
- Nifer y ffurflenni adborth a ddychwelwyd
- Nifer y plant a phobl ifanc a gafodd gymorth i gael cyngor arbenigol neu gyfreithiol
- Unrhyw enghraifft lle mae hunan-eiriolaeth wedi'i hyrwyddo.

## Canlyniad 5

Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn dylunio, cynllunio, cyflenwi a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-i-ddarparwyr-eiriolaeth-ar-gwblhaur-templed-adrodd-perfformiad-cenedlaethol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwerthuso gwasanaethau eirioli.

- Eglurwch sut mae plant a phobl ifanc yn rhan o'r gwasanaeth - cyfweliadau, recriwtio, datblygu, Grŵp Cynghori Pobl Ifanc ar y gwasanaeth.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/canllawiau-i-ddarparwyr-eiriolaeth-ar-gwblhaur-templed-adrodd-perfformiad-cenedlaethol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.